
Adolygiad o'r Marchnadoedd Telegyfathrebiadau Sefydlog Cyfanwerthol 2021-26

Ymgynghoriad pellach ar rwymedïau arfaethedig
penodol

Fersiwn anghyfrinachol – wedi'i olygu ar gyfer cyhoeddi [X]

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 6 Tachwedd 2020

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 8 Rhagfyr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

2

1. Trosolwg

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom ymgynghori ar ein hadolygiad o'r marchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog cyfanwerthol (WFTMR) ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026 (Ymgynghoriad mis Ionawr 2020). Roedd hyn yn cynnwys atebion arfaethedig yn y marchnadoedd ar gyfer seilwaith ffisegol (PI), mynediad lleol cyfanwerthol (WLA), mynediad llinellau ar brydles (LLA) a chysylltedd rhyng-gyfnewidfa (IEC), lle roeddem wedi nodi dros dro bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP). Yn sgil hyn, ar 6 Chwefror 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein hymgyngghoriad ar adrodd rheoleiddiol a oedd yn nodi ein gofynion adrodd ariannol rheoleiddiol arfaethedig ar BT yn y marchnadoedd hyn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai newidiadau i'n hatebion arfaethedig ar gyfer Mynediad Seilwaith Ffisegol (PIA), Mynediad Ffeibr Tywyll (DFA) a Chysylltedd Rhyng-gyfnewid Ffeibr Tywyll (DFX), a wnaethom yn dilyn ymatebion i'n Hymgyngghoriad ym mis Ionawr 2020. Rydym hefyd yn newid ein cynigion ar gyfer prisio gwasanaethau ffeibr i'r cabinet (FTTC) sy'n cael eu darparu drwy Fynediad Ethernet Generig Un Archeb (SOGEA). Yn olaf, rydym yn nodi newid o ran sut rydym yn bwriadu dehongli sail rhwymedigaethau ffioedd ar gyfer gwasanaethau ategol PIA sy'n ymwneud ag addasiadau i'r rhwydwaith, gwasanaethau ategol eraill PIA, a ffioedd adeiladu ychwanegol i gontractwyr (ECCs) ac rydym yn cynnwys cynigion ar rwymedigaethau adrodd ariannol rheoleiddiol cysylltiedig.

Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Prisio PIA: Seilio'r cyfraniadau y dylai cwsmeriaid PIA eu gwneud ar gyfer cynnyrch siambrau a phibellau aml-gwndid gan ddefnyddio ffigur canrannol syml, yn hytrach na'u seilio ar ddefnydd ar adeg benodol.

Prisiau DFA/DFX: Diwygio'r rheolaethau ffioedd arfaethedig ar gyfer ffeibr tywyll, ar sail tystiolaeth newydd sy'n ymwneud â dyrannu costau yn natganiadau ariannol rheoleiddiol (RFS) BT.

Gweithredu DFA: Ymestyn cyfnod gweithredu DFA i 4.5 mis ar ôl cyhoeddi ein datganiad ar gyfer holl elfennau hanfodol y cynnyrch (darparu a thrwsio), a 14 mis o'r datganiad ar gyfer yr holl elfennau o'r cynnyrch nad ydynt yn hanfodol (gan gynnwys bilio, newyddu a chytundebau lefel gwasanaeth) a chydymffurfio â safonau ansawdd gwasanaeth Ofcom.

SOGEA: Gosod rheolaeth ffioedd am wasanaeth FTTC 40/10 a ddarperir drwy SOGEA ar sail CPI-0%, yn hytrach nag ar sail teg a rhesymol.

Sail y rhwymedigaeth ffioedd: Dehongli sail y rhwymedigaethau ffioedd ar gyfer gwasanaethau ategol PIA sy'n ymwneud ag addasiadau i'r rhwydwaith a gwasanaethau ategol eraill PIA drwy gyfeirio at gostau sydd wedi'u dyrannu'n llawn, ac ECC y contractwyr ar sail trosglwyddo costau drwodd yn ogystal ag ychwanegiadau. Rydym hefyd yn cynnig rhai newidiadau bach i'r amodau cyfreithiol ac yn cynnig mynnu bod BT yn rhoi gwybodaeth am gostau i ni o ran y gwasanaethau hyn fel rhan o'i ofynion adrodd rheoleiddiol.

Y camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 8 Rhagfyr 2020. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad terfynol ynghylch yr adolygiad o'r farchnad telegyfathrebiadau sefydlog gyfanwerthol erbyn 31 Mawrth 2021.